# GWEITHDREFNAU ARIANNOL

**Adran 07 – Gwyngalchu Arian**

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| **Dyddiadd Cymeradwyo:** | Chwefror 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Rheolaeth Cyllid |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Chwefror 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Medi 2022 |

**Adran 7: Gwyngalchu Arian**

## 7. Adran 7: Gwyngalchu Arian

7.1. Rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio bob amser â Deddf Elw Troseddau (2002) https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/29/contents ac unrhyw reoliadau eraill ynghylch amheuaeth o wyngalchu arian. Pe bai gan staff achos i amau y gallai unrhyw weithrediad masnachol fod yn guddiad ar gyfer y fath weithgaredd, dylent hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar unwaith. Diffinnir gwyngalchu arian fel unrhyw weithrediad masnachol sy'n cynnwys ymdrin ag enillion troseddol.

7.2. Gall arwyddion posibl o wyngalchu arian gynnwys:

- Pan fo person neu gwmni yn gwneud taliad arian parod mawr i'r Brifysgol, ond yn methu â darparu'r dystiolaeth gywir i gadarnhau eu hunaniaeth a'u cyfeiriad.
- Pan nad oes gan berson(au) neu gwmni sy'n gwneud busnes gyda'r Brifysgol y gwaith papur cywir. (Gall enghreifftiau o hyn gynnwys anfonebau sy'n eithrio TAW, sy'n methu â dyfynnu rhif TAW neu anfonebau a gyhoeddwyd gan gwmni cyfyngedig nad oes ganddo swyddfa na rhif cofrestredig. Gellir gwirio gwybodaeth o'r fath ar wefan Tŷ'r Cwmnïau, www.companies-house.gov.uk).
- Pan fo person(au) neu gwmni yn ceisio ymgymryd â "gweithrediadau masnachol cylchol", lle dilynir taliad i'r Brifysgol gan ymgais i gael ad-daliad o gyfrifon y Brifysgol. (Gall hyn ddigwydd pan fydd myfyriwr yn talu swm sylweddol mewn ffioedd, ac yna'n tynnu'n ôl gan geisio hawlio ad-daliad).
- Pan wneir taliadau mawr anarferol neu annisgwyl yng nghyfrifon y Brifysgol.

7.3. Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol, a gall gwyngalchu arian ymddangos mewn amryw o ffurf.

7.4. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn adrodd yr holl ddigwyddiadau dan amheuaeth o wyngalchu arian i'r awdurdodau cymwys. Mae Deddf Elw Troseddau (2002) yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Gweithgaredd Amheus gael ei anfon ymlaen at y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Droseddol Genedlaethol. Gellir canfod y manylion llawn o beth i'w wneud yma: https://www.gov.uk/guidance/money-laundering-regulations-report-suspicious-activities.